Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

29/11/18

# Holiaduron Rhieni / Gwarchodwyr – Hydref 2018

## Gwaith Cartref

Diolch i bawb a ymatebodd i'r holiaduron a ddosbarthwyd yn ddiweddar yn gofyn am eich barn ar waith cartref. Dychwelwyd 90 o holiaduron, sy'n siomedig o ystyried niferoedd disgyblion yr ysgol, felly os na lwyddoch chi gwblhau un y tro hwn, gofynnir yn garedig i chi gymryd ychydig o funudau i wneud hynny y tro nesaf os gwelwch yn dda.

O'r ymatebion i'r holiadur, cytunodd 79% gyda chynnig yr ysgol i atal yr arfer o ddarparu gwaith cartref ffurfiol, gydag 17% yn anghytuno. Doedd 4% ddim yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig.

Yn ogystal a chasglu barn rhieni a gwarchodwyr, trafodwyd y cynnig gyda disgyblion, staff a chorff llywodraethol yr ysgol hefyd. Yn dilyn gwrandawiad o farn pawb ac wrth geisio ymateb i anghenion yr holl rhanddeiliaid, penderfynwyd ar y polisi gwaith cartref canlynol:

<u>Disgyblion Cyfnod Sylfaen</u>

- disgyblion i ymchwilio i thema'r dosbarth pob tymor trwy ddarllen llyfrau ffeithiol a gwefannau, ymweld ag ardaloedd o ddiddordeb ayyb;
- disgyblion i ddarllen yn ddyddiol;

<u>Disgyblion Cyfnod Allweddol 2</u>

- disgyblion i ymchwilio i thema'r dosbarth pob tymor trwy ddarllen llyfrau ffeithiol a gwefannau, ymweld ag ardaloedd o ddiddordeb ayyb;
- disgyblion i ddarllen, dysgu eu tablau lluosi ac ymarfer eu geiriau sillafu a'u llawysgrifen yn ddyddiol;
- disgyblion i baratoi cyflwyniad llafar pob hanner tymor ar destun a ddewisir gan y dosbarth. Bydd hwn yn cael ei asesu fel rhan o weithdrefnau asesu parhaus yr ysgol
- dosbarthir taflenni gwaith mathemateg yn bythefnosol sydd yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn y dosbarth dros y pythefnos flaenorol er mwyn eich hysbysu o gynnwys yr agweddau a astudiwyd fel y gallwch gynorthwyo eich plant petai angen. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn opsiynol ac ni fydd yn cael ei gasglu gan yr athro/awes.

parhau ……

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Bydd trosolwg o feysydd astudio Mathemateg, Cymraeg a Saesneg pob hanner tymor hefyd yn cael eu rhannu gyda rhieni, fesul gwefan yr ysgol (tudalennau dosbarth) er mwyn caniatáu i'r sawl sydd am gefnogi eu plant adref i allu gwneud hynny.

Bydd y trefniant newydd hwn yn ei le am weddill y flwyddyn academaidd ac yn cael ei adolygu ar ddiwedd tymor yr haf. Petai gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach i'w gwneud, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield

Pennaeth